DRAFFT DRAFT

LC121

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD**

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Cychwyn darpariaethau'r Ddeddf ar 1 Tachwedd 2000 y mae’r Gorchymyn hwn. Yn y bôn darpariaethau yw'r rhain sy'n caniatáu i'r Cynulliad gyflawni swyddogaethau rhagarweiniol cyn cychwyn sylwedd y darpariaethau. Mae'r swyddogaethau o dan sylw yn cynnwys pwerau i roi cyfarwyddiadau, gwneud rheoliadau a gorchmynion, a chyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau. Dyma'r pynciau yr ymdrinnir â hwy –

Pwerau awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal,

Pwerau i'r awdurdodau lleol sefydlu strwythurau gweithredol,

Darpariaethau ynglŷn ag ymddygiad aelodau a gweithwyr cyflogedig llywodraeth leol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi nifer o bwyntiau y ceir manylion amdanynt isod. Gallai rhai o'r pwyntiau hyn (lle maent wedi'u nodi'n benodol) fod yn faterion i adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.

Deellir bod yr Ysgrifennydd Cynulliad yn bwriadu cywiro pob un o'r pwyntiau sy'n ymwneud â thestun gwirioneddol y Gorchymyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau o dan Reol Sefydlog 22.12A, a chadarnheir bod yr holl bwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn rhai priodol i'w cywiro felly.

Gan hynny, yn ddarostyngedig i Femorandwm Cywiriadau sy'n ymdrin â'r holl bwyntiau o dan Reol Sefydlog 11 sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad, nid oes unrhyw bwyntiau y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mae'r pwyntiau sydd wedi'u nodi fel a ganlyn.

**Rhifau OS**

Mae'n well i'r rhif Cy. ddod o flaen y rhif C.(W. cyn C. yn y testun Saesneg).

**Nodyn Esboniadol - ail baragraff**

Byddai o gymorth petai cyfeiriad cryno'n cael ei gynnwys fan hyn at y pynciau y mae Rhannau I i III o'r Ddeddf yn ymdrin â hwy, a phetai'n nodi’r dyddiad y cafodd y Ddeddf ei phasio.

**Rhaglith**

Mae Adran 108(7) yn cael ei henwi fel pŵer galluogi ar y sail y bydd gorchymyn cychwyn dilynol yn cychwyn darpariaethau eraill yn ddiweddarach, er bod y Gorchymyn presennol yn cynnwys un dyddiad cychwyn yn unig. A bod yn gywir, credir, serch hynny, na ddylid enwi adran 108(7). Mae'r pŵer i wneud gorchmynion gwahanol sy'n pennu dyddiadau gwahanol yn bodoli o dan is-adran (6). Y cyfan y mae is-adran (7) yn ei wneud yw caniatáu i ddyddiadau gwahanol gael eu pennu yn yr un Gorchymyn.

**Erthygl 2**

Byddai o gymorth petai geiriau yn cael eu cynnwys i nodi bod y darpariaethau yn dod i rym mewn perthynas â Chymru.

**Adran 25(7)**

Ni ddylid cynnwys hon gan na fydd iddi unrhyw effaith cyn cychwyn is-adran (1). Pwynt o dan Reol Sefydlog 11 fuasai hwn.

**Adran 28**

O dan y Ddeddf y cynigion wrth gefn eu hunain sydd wedi'u hamlinellu. Mae'n ymddangos bod y testun Cymraeg yn y Gorchymyn yn cyfeirio at fraslun o'r cynigion wrth gefn. Mae hynny'n awgrymu dogfen sy'n ychwanegol at y cynigion wrth gefn eu hunain.Deellir bod y geiriad i gael ei newid bellach oherwydd hynny i "cymeradwyo cynigion wrth gefn amlinellol."

**Adran 49(6)**

Dylid cyfyngu hyn i baragraffau (a), (b), (f), (l), (m) a (p) gan mai dim ond y paragraffau hynny sy'n gallu cael effaith yng Nghymru. Pwynt o dan Reol Sefydlog 11 fuasai hwn.

**Adran 68**

Yn y testun Cymraeg mae'r sillafu i gael ei gywiro i "yng Nghymru".

**Adran 83(12) ac (16)**

Ni ddylid cynnwys yr is-adrannau hyn gan eu bod yn ymwneud â chynghorau plwyf yn unig. Pwynt o dan Reol Sefydlog 11 fuasai hwn.

**Adran 93**

Dylid hepgor hon gan nad yw'n cael sylw yn Adran 108(4), a dim ond darparu (gydag un eithriad) ar gyfer cychwyn y darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (4) y mae pŵer cychwyn y Cynulliad o dan Adran 108(6). Pwynt o dan Reol Sefydlog 11 fuasai hwn.

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-145

29 Medi 2000